

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/06/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

Thomas Victor Jones
Iwan Hughes
John Brinley Jones

Evan Glyn Thomas
William Penri Jones
D Andrew Parry

Clair Russell Hughes
William Roger Jones

Rhian Parry
(Clerc)

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

1. Ymddiheuriadau

Ellis Owen, Greta Hughes a Barbra Warren

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim

3. Cofnodion 29/06/2020

Derbyn Cofnodion 29/05/2020 yn gywir (Cynnigwyd Penri Jones, Eilio; John B Jones). Bydd y Clerc yn trefnu eu gyrru i Iwan Hughes (Cadeirydd) yw arwyddo.

4. Unrhyw Fater Brys

- **Cais Cynllunio** – Cais wedi ei dderbyn ers darparu'r agenda.
- **Blodau** – Mae dwy gasgen flodau wedi pydru ac yn flêr ofnadwy mae Andrew Parry yn cynnig (eilydd – Victor Jones) archebu dwy gasgen gyda blodau o Dyddyn Sachau cyn gynted a bod modd. Mae'r cynnig yn llwyddiannus a bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau.
Mae Evan Glyn Thomas wedi cynnig clirio'r hen gasgenni a'i gwaredu. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn. Nodwyd fod aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn brysur yn tendio i'r potiau blodau ar draws y pentref. Mae'r Cyngor Cymuned yn ddiolchgar iawn i'r unigolion yma.
- **Y Neuadd** – Mae'r pwyllgor yn awyddus i dderbyn gwybodaeth ar Neuadd y Pentref. Ni does adroddiad wedi ei dderbyn ers amser. Gofynnwyd i'r Clerc Gysylltu gyda Barbra Warren i drefnu adroddiad at bwyllgor mis Medi.
Mae Iwan Hughes yn nodi ei fod wedi llenwi ffurflen gais i grant sydd ar gael i'r neuadd ac wedi ei gyflwyno.

5. Cae chwarae

Dim diweddariad, Barbra Warren ddim yn bresennol i ddiweddar. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael diweddariad ac yn gofyn i holi os oes unrhyw ddatblygiad. Bu'r Clerc gysylltu gyda'r Pwyllgor Cae Chwarae ac adrodd yn ôl.

6. Y Fynwent

Mae'r Cadeirydd yn nodi fod coed yn tyfu yn flêr dros rhai beddi. Mae'r pwyllgor yn awyddus i dwtio'r fynwent. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r ymgymherwr i wneud y gwaith.

Mae'r Clerc wedi gyrru cais am bris i dri ymgynghorwr er mynd ymlaen gyda'r gwaith ar y fynwent newydd. Dim ond un pris sydd dal wedi dod i law hyd yn hyn. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r ymgynghorwyr er gobeithio gallu mynd ymlaen hefo'r Gwaith cyn gynted â phosib.

Mae pryderon am sefyllfa ymddiriedolwyr y fynwent. Mae llawer gwaith cyfreithiol yw gwneud a bydd rhaid gwneud yn siŵr fod yr holl fanylion yn gywir.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/06/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

7. Awdit

- **18-19** - Mae gwaith yr archwiliad dal i fynd yn ei flaen. Mae'r Clerc wedi gyrru adroddiad cyfrif banc i'r BDO yn dilyn derbyn caniatâd i fancio dros y we gyda Lloyds mis diwethaf ond dim wedi derbyn ymateb hyd heddiw. Bydd y Clerc yn dilyn I fynu ar hyn.
- **19-20** - Mae'r holl ddogfennau wedi eu he-bostio i archwiliad mewnol. Nid yw'r cysoniad banc yn gyd fynd gyda gwybodaeth hanesyddol. Mae'r Clerc wedi rhoi'r holl ddogfennaeth sydd ar gael i archwiliad mewnol er trio gwyro hyn.
Bydd angen cynnal cyfarfod brys dros zoom er cymeradwyo'r wybodaeth ac arwyddo'r ffurflen cyn y gellir eu gyrru ymlaen i'r BDO.

8. Rhestr eiddo

Dim diweddariad i'r wybodaeth. Mae'r Clerc wedi cael templed gan Gyngor Gwynedd er cofnodi'r eiddo ai costau ar gyfer yswiriant y well.

9. Llwybrau

Dim Diweddariad

10. Traethau a Toiledau

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn taliad o £1000 gan yr ymddiriedolaeth genedlaethol am flwyddyn 18-19 o'r diwedd ond nid oedd taliad 2019-20 wedi ei gynnwys. Bu l'r clercc ddilyn fynnu ar hyn ac ail yrru anfoneb eto. Cytunwyd adran cyllid yr ymddiriedolaeth genedlaethol dalu'r anfoneb cyn gynted â phosib. Bu'r Clerc yn gyrru anfoneb am gyfraniad flwyddyn 2020-21 cyn gynted â phosib.

Nodwyd bod y maes parcio wedi agor 26/06/2020 gan yr ymddiriedolaeth Genedlaethol, nid oes diweddariad wedi ei dderbyn i'r Cyngor Cymuned, bydd y Clerc yn dilyn mynnu ar hyn.

Nodwyd y bydd angen ail agor y toiledau hefyd felly yn sgil llacio rheoliadau covid-19 a'r llanast sydd wedi ei weld mewn rhai ardaloedd. Nid oes diweddariad wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r toiledau, bydd y Clerc yn edrych i mewn i hyn ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

11. Cofebion Mynydd Tir y Cwmwd

Dim diweddariad.

12. Coronavirus covid-19

Mae canllawiau covid-19 dal mewn grym ond mae llacio i'r rheolau ar y gweill at wythnos nesaf. Bydd y Clerc yn edrych i mewn i oblygiadau hyn i gyfarfodydd y Cyngor Cymuned.

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc - Rhian Parry - Mis Mehefin	£333.33
Ashley Hughes – Nwyddau Cefnogol	£13.19

Taliadau wedi eu Derbynn

Ymddiriedolaeth Cenedlaethol – Taliad 2018-29 Cyfraniad Toiledau	£1000.00
------------------------------------------------------------------	----------

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/06/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

Ceisiadau Cynllunio

C20/0429/38/DT

Bryn Eithin, Llanbedrog

Dymchwel porth mynediad presennol, tynnu to polycarbonate i'r lolfaf wydr cefn, adeiladu estyniad ochr unllawr newydd a to brig llechi uwchben y lolfaf wydr

Dim gwrthwynebiad

C20/0469/38/CC

Y Pentir Glynwyddw, Llanbedrog

Gwaith i dorri a tocio coed.

Trosglwyddo i'r Swyddog coed.

C20/0480/38/CC

National Trust Car Park, Lôn Nant Iago, Llanbedrog,

Gwaith i goeden sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed

Trosglwyddo i'r Swyddog coed.

Gohebiaeth

Clerks & Council Direct – Newyddlen

2. Panel annibynnol cymru ar gydnabyddiaeth ariannol – cadarnhad o dderbyn datganiad blynyddol

3. Tarian cymru - yn helpu eich ardal chi!

4. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofa

5. Bwletin 2 Gyda'n Gilydd- Cynghorau Cymuned

6. Un Llais Cymru – Arolwg Aelodaeth

7. Mantell Gwynedd - Bwletin Rhifyn 3

8. Un Llais Cymru - Diwrnod Amgylchedd y Byd – Arian newydd i natur yn helpu cymunedau i fraenaru'r tir ar gyfer y Gymru

9. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adroddiad

10. Cyngor Gwynedd - Straeon partneriaeth yng Ngwynedd / Gyda'n Gilydd

11. Llywodraeth Cymru - Bwletin COVID-19 Llywodraeth Cymru

12. Ben Beattie – Rhandiroedd

Ni does rhandiroedd yn Llanbedrog

13. Arloesi Gwynedd - Yn Galw ar Gyngorau Cymuned Gwynedd - Rydym angen eich help!

Cais am gyfraniad

O Ddrws i Ddrws - Cais i ariannu cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa

2. BOBATH – Canolfan Therapi Plant Cymru

3. Ysgol Llanbedrog – Rhodd i osod polyn fflag

4. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Cais am rhodd.

5. Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie - Cais am gyfraniad

6. Parêd Dewi Sant Pwllheli – Cais am gyfraniad

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 29/06/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

7. Dawns i Bawb – Cais am gyfraniad
8. Theatr Bara Caws – Cais am gyfraniad
9. Eisteddfod yr Urdd – Sir Ddimbych 2020
10. Victim Support – Cais am gyfraniad
11. Elusen Ambiwylans Awyr Cymru - Cais am gyfraniad
12. Hosbis Dewi Sant – Cais am gyfraniad
13. Llangollen International Musical Eisteddfod – Cais am gyfraniad
14. Teenage Cancer Trust Cymru – Cais am gyfraniad
15. Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw – Cais am gyfraniad
16. Ymchwil Canser Cymru – Cais am gyfraniad
17. Tenovus - Helpu Cynnal Gobaith
18. Tarian Cymru - Cais am gyfraniad
19. Ty Gobaith – Cais am gyfraniad
20. Calonau Cymru - Cais am gyfraniad

Penderfynwyd gohirio at bwyllgor wyneb yn wyneb.